Cyngor Ysgolion Sul
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli,
Gwynedd, LL53 6SH
**Ffôn** 07894 580192 **Ebost** aled@ysgolsul.com

Cyngor Ysgolion Sul

CYHOEDDIADAU'R GAIR


# CYSYLLTIAD 2026

## Y wybodaeth ddiweddaraf am waith ac adnoddau y Cyngor Ysgolion Sul a Chyhoeddiadau'r Gair

## Croeso i rifyn diweddaraf CYSylltiad

sy'n llawn newyddion am yr adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael i gyflwyno'r efengyl yng Nghymru heddiw. Mae Cyngor Ysgolion Sul a Cyhoeddiadau'r Gair yn ddyfal yn darparu cyfrolau newydd ac erbyn hyn llawer iawn o adnoddau ar y wê i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Cofiwch ddod i gysylltiad os am unrhyw gefnogaeth gyda'r gwaith.

**Mae pob dim hefyd ar gael ar ein gwefan www.ysgolsul.com.**




### Adnoddau am ddim ar y wê

Erbyn hyn mae llawer iawn o adnoddau i'w cael ar ein gwefan i lawrlwytho am ddim. Yn ddiweddar ychwanegwyd testun Bywyd â Phwrpas, canllawiau ar weddïo gyda phlant a darllen y Beibl gyda phlant ac ieuenctid.

**Manylion llawn ar dudalen 4.**




### Adnoddau Ysgol Sul

Pecyn cyflawn ar gyfer yr holl eglwys yn cynnwys ffilmiau, deunydd trafod, cerddi i ysgogi ymateb a deunydd i blant o bob oed. Mwy o fanylion ar dudalen 3.




### Catlog Cynhwysfawr

64 tudalen lliw llawn

Ar gael i lawrlwytho am ddim o www.ysgolsul.com neu gallwch archebu copi caled trwy anfon siec o £2 i 'Cyngor Ysgolion Sul' i'r cyfeiriad a welir uchod.




### Cyfrolau diweddar

Manylion llawn ar dudalen 5 a 6.




### Llyfrau lliw i blant

Manylion llawn ar dudalen 5.

Cygnor Ysgolion Sul
**Cyngor Ysgolion Sul**
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli
Gwynedd, LL53 6SH

**Ffôn** 07894 580192
**Ebost** aled@ysgolsul.com

CYHOEDDIADAU'R GAIR

**I'w gyflwyno i sylw aelodau eich eglwys / YSGOL SUL**

# Llythyr ac Apêl Sul Addysg, 2026

Annwyl gyfeillion,

Pleser yw amgáu gwybodaeth am weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul i'ch sylw. Mae Cyngor Ysgolion Sul wedi bod yn darparu fwyfwy o adnoddau yn rhad ac am ddim ar y we. Mae nifer o wersi Ysgol Sul, ffilmiau a chaneuon newydd yn cael eu cyhoeddi yn rheolaidd, ac mae adran arbennig ar gyfer hyn ar ein tudalen hafan ar **www.ysgolsul.com.**

**Yn ystod y flwyddyn bydd Cyngor Ysgolion Sul yn teithio o gwmpas Cymru gyda thaith arbennig i annog eglwysi i gychwyn gwaith newydd yn lleol.**

Mae deunyddiau ar gael hefyd ar wefan **www.gair.cymru** lle ceir llawer o wersi ysgol Sul, ayyb i'w lawr lwytho am ddim ac hefyd ar www.cristnogaeth.cymru lle rydym wedi sefydlu sianel deledu Gristnogol **TCC** (Teledu Cristnogol Cymru), lle ceir dros 3,000 o raglenni Cristnogol Cymraeg i'w gwylio, yn oedfaon, myfyrdodau, caneuon a rhaglenni i blant. Mae **www.beibl.net** hefyd efo toreth o adnoddau Cristnogol a **www.gobaith.cymru** yn hafan i llawer o ganeuon ac emynau newydd yn y Gymraeg – tua 30 yn newydd yn ystod 2025.

Wrth edrych tua'r Nadolig, mae gennym nifer o lyfrau newydd i blant ac oedolion. Hefyd mae'r cylchgrawn lliwgar Clywch lu'r Nef yn ddelfrydol ar gyfer ei ddosbarthu yn y gymuned, a gellir archebu baner sy'n cyd-fynd â'r cylchgrawn, i'w roi o flaen eich capel dros y Nadolig. Ceir adnoddau Nadolig di-ri ar ein gwefan o dan yr adran **Clywch lu'r Nef**. Mae gennym 5 tudalen ar Facebook hefyd lle rydym yn darparu adnoddau gall eglwysi rannu ymhlith eu haelodau. **Gweler y wybodaeth yn y bwletin hwn.** Dilynwch, hoffwch, rhannwch!

Gofynnwn hefyd am eich cefnogaeth a'ch gweddïau chi dros y gwaith. Gwahoddwn ni chi fel eglwys i neilltuo rhan o wasanaeth yn ystod cyfnod yr Adfent i roi sylw i **'Sul Addysg'**, – bydd hyn yn rhoi cyfle i chi fel eglwys i ddiolch am gyfraniad addysg Gristnogol i fywydau ein hieuenctid, i ystyried ei werth heddiw, ac i weddïo dros bawb sy'n cyflwyno a derbyn yr addysg hon.

## EIN HAPEL BLYNYDDOL I'R EGLWYSI

Dyma'r Sul hefyd y mae Cyngor Ysgolion Sul yn gwneud ei **apêl ariannol blynyddol** i'r eglwysi. Diolchwn am bob cyfraniad at y gwaith dros y blynyddoedd diwethaf – mae'r rhoddion yma erbyn hyn yn gwbl allweddol i ddatblygiad ein gwaith. Apeliwn eleni yn arbennig am eich cefnogaeth, mewn cyfnod lle mae'n hincwm o werthiant llyfrau ayyb wedi diflannu bron. Fel llawer elusen arall, gyda methiant i fynd at y bobl rydym wedi colli cyfleoedd i werthu a derbyn nawdd cefnogwyr. Gwerthfawrogir pob rhodd – gyrrwch eich sieciau (yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul) i'r cyfeiriad uchod. Y mae ein strategaeth dros y blynyddoedd nesaf yn cynnwys datblygu gwefannau lle bydd llawer iawn o adnoddau ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. Mae hynny yn golygu llai o incwm i ni fel elusen, a chost wrth gwrs i ddatblygu'r elfen bwysig yma o'n gwaith. Diolch am bob cefnogaeth at waith yr Ysgol Sul – cofiwch gysylltu os am fwy o wybodaeth ar unrhyw agwedd o'r uchod.

Yn gywir,

*D. Aled Davies* **Aled Davies** Cyfarwyddwr

---

Amgaeaf siec o £................ fel cyfraniad o Eglwys ............................................................ am 2026.

Enw: ........................................................................................ Ffôn: ........................................................................................

Eglwys: ........................................................................................ Ebost: ........................................................................................

Cyfeiriad: ........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................ Côd Post ........................................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

**Ymddiriedolwyr:** Elinor Wyn Reynolds, Judith Morris, Dyfrig Lloyd, Jennie Hurd, Rheinallt Thomas a swyddogion cyfredol y Cyngor.
**Cofrestrwyd fel Elusen/Registered Charity:** Rhif/No: 525766
**Swyddfa Gofrestredig/Registered Office:** Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.

# Adnoddau Ysgol Sul i blant ac ieuenctid

Mae gan Cyngor Ysgolion Sul tua 6 cyfres o werslyfrau Beiblaidd i blant y mae modd eu prynu, ac erbyn hyn mae nifer o ddeunyddiau digidol ar gael gennym hefyd ar wefan **www.gair.cymru**. Trwy ymweld a www.gair.cymru ceir cyfresi cyflawn o werslyfrau gan gynnwys **Cyfres Stori Duw**, cyfres gwersi Beiblaidd **Clwb Plant Trwy'r Post**, Cynllun **Y Gwir Ffordd**, taflenni **AmserBeibl** a llawer o adnoddau o wefan **beibl.net**.




Ymhlith y deunyddiau print diweddar:

**Beiblau Gweithgaredd**
Dyma ddau lyfr sy'n addas ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth ysgol Sul (gwersi ar gael o gair.cymru fel cefndir i'r storïau)

**Beibl yr Anturwyr Mawr**
Llyfr gweithgaredd Beiblaidd lliwgar i blant 7–11 oed yn cynnwys 100 o weithgareddau, dyfyniadau Beiblaidd, posau a sticeri.

**Beibl yr Anturwyr Bach**
Llyfr gweithgaredd Beiblaidd lliwgar i blant 4–7 oed yn cynnwys 100 o weithgareddau, dyfyniadau Beiblaidd, posau a sticeri.

**Gwerslyfr Stori Sach Cyfiawnder Duw**
Mae gan Cyngor Ysgolion Sul werslyfr (mewn cydweithrediad gyda Chymorth Cristnogol) ar gyfer plant 5–11 oed. Ceir 16 sesiwn Beiblaidd yn ein tywys trwy'r Beibl.





---

# Maes llafur yr Ysgol Sul i oedolion

O fis Hydref 2025 ymlaen y maes llafur ar gyfer yr oedolion fydd cyfrol Codi'r Llen, sy'n ein tywys ar daith 40 sesiwn, yn edrych ar rai o ferched arwrol yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y gyfrol, sy'n gyfieithiad o Unveiled 2 flynedd yn ôl, ac mae'n dda cael cyfle i'w ddefnyddio fel ffrwyth astudiaeth dros y flwyddyn nesaf. Yn ychwanegol i'r gyfrol ei hun, bydd myfyrdod a chyfres o gwestiynau hefyd yn ymddangos yn wythnosol yn Cenn@d a'r Tyst, i'n cyfeirio ar hyd y daith.

https://ysgolsul.com/?page_id=804



# Adnoddau Gweddïo gyda phlant

Ar wefan www.ysgolsul.com ceir y tudalenau isod sy'n cynnig canllawiau ar sut i weddio gyda phlant.





Gweddïo gyda phlant

Cardiau Gweddi i blant

Gellir cyflwyno'r syniad o weddi i blant o oed ifanc iawn. Ewch i'n gwefan lle mae gennym nifer o adnoddau i'ch cynorthwyo gyda hynny.

# Darllen y Beibl gyda phlant a ieuenctid

Elfen bwysig o ddatblygiad ffydd plant a phobl ifanc yw dysgu darllen a deall y Beibl.






Darllen y Beibl

Canllawiau i

Comics Beiblaidd

Diolch i Trueway Kids am baratoi cyfres o gomics Beiblaidd i blant. Maent ar gael isod i lawrlwytho ac hefyd ar gael o wefan truewaykids.com. Mae'r comics hyn yn dod Gair Duw yn fyw trwy ddarluniau lliwgar ac yn defnyddio testun y Beibl ei hun.

# Gwaith mewn Ysgolion

Ar wefan www.ysgolsul.com ceir adrannau sy'n cynnig canllawiau ar waith mewn ysgolion.



Cyswllt Ysgolion

Datblygu cysylltiad rhwng yr Eglwys a'ch ysgol leol


MAG Cymru

Gwefan deunyddiau Mudiad Addysg Grefyddol Cymru

Ceir dros 200 o wasanaethau yn adran MAG Cymru ar ein gwefan.

# Bywyd â Phwrpas

Mae The Purpose Driven Life gan Rick Warren yn cael ei ystyried yn fyd-eang fel clasur Cristnogol cyfoes. Bellach, mewn partneriaeth gyda Chymanfa Bedyddwyr Arfon a Gweinidogaeth ryngwladol Rick Warren mae cyfieithiad safonol Cymraeg ar gael.




Bywyd â Phwrpas

Addasiad Cymraeg o Purpose Driven Life

# LLYFRAU DIWEDDAR




**Llyfr Piano'r Nadolig**
£8.99 7 tt
Casgliad hawdd ei chwarae o'ch hoff garolau Nadolig. Yn cynnwys piano electronic bach.

**Llyfr Llechen Beiblaidd**
£11.99 40 tt
Llyfr lliwio i blant bach sy'n cynnwys 20 o straeon Beiblaidd yn cynnwys sgrin LCD ddigidol.


**Llyfr Sŵn Anifeiliaid y Beibl** £11.99 10 tt
Dewch o hyd i'r anifeiliaid swnllyd ym mhob golygfa o'r Beibl, yna gwrandewch ar y synau maen nhw'n eu gwneud yn y llyfr sain hwyliog hwn.

**Llyfr Sticeri Storïau Beiblaidd**
£6.99 10 tt
Dyma lyfr sticeri anferth sy'n cynnwys 5 hanes o'r Beibl: Y Creu, Joseff, Moses, Arch Noa a Geni Iesu.


Cyfres Jig-so Beiblaidd
Tri Jig-so 50 darn.
**Geni Iesu**
**Arch Noa**
**Porthi'r Pum Mil**
£7.99 yr un

**Llyfr Carioci - Carolau Nadolig i Blant** £9.99
Llyfr bwrdd gyda chwe botwm sain.


---





**Llwybr Cadfan**
Sian Northey, Siôn Aled, Elin Owen
£9.99
Dyma gyfrol sy'n gwahodd y darllenydd cyfoes i droedio eto ar lwybr un o'r hen seintiau Celtaidd.





**Trwy'r Anialwch**
Trystan Owain Hughes £9.99
Cyfrol sy'n archwilio profiad a phererindod ffydd yr awdur drwy ddioddefaint.





**Yng ngolwg ffydd**
Owain Llŷr Evans £9.99
Casgliad o erthyglau, ffrwyth llafur colofn wythnosol i Golwg360.





**Cyrraedd Bannau**
Aled Edwards £9.99
Trafodir nifer o heriau diweddar yn y gwaith hwn, sy'n cyffwrdd â ffydd, cenedl a'n byd.





**Gweddïo sy'n Bywhau**
Owen Cottom £8.99
Llyfr sy'n ein help i ddarganfod sut mae'r Salmau yn ein harfogi gydag iaith i fynegi ein dyhead i weld Duw yn symud mewn nerth yn ein dydd ni.





**Byw'r Weddi**
Trystan Owain Hughes £7.99
Cyfrol sy'n cyflwyno persbectif newydd ar Weddi'r Arglwydd. Wedi ei wreiddio yn y Beibl yn ogystal ag mewn diwylliant cyfoes.





**Gweddïo'r Salmau**
Euros Jones Evans £14.99
Cyfrol o weddïau sy'n daith drwy Lyfr y Salmau (150 ohonynt) a fydd yn ysbrydoliaeth ac yn sail i weddïau personol a chynulleidfaol.





**Dyrys Daith**
Huw John Hughes £14.99
Cyfrol yn trafod yr argyfwng newid yn yr hinsawdd o bersbectif Cristnogol. Yn cynnwys myfyrdodau a gwasanaethau perthnasol.





**Reit Rownd**
Aled Jones Williams
Pris: £8.99, 252 tt
Fel cyffes y disgrifir Reit Rownd. Cyffes yn yr ystyr o geisio disgrifio taith yr awdur i diriogaeth cred a ffydd.




**Eglwys y Bobl 1,2 a 3** £13.99
Y weledigaeth ar gyfer y cyfrolau hyn yw y byddant yn cael eu defnyddio gan gynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt i'w helpu i gynyddu mewn ffydd ac ymddiriedaeth yn Nuw ac i gael eu hysbrydoli i fyw'r ffydd yn eu cymunedau a'u cartrefi, eu gweithleoedd a'u diddordebau.




**Hoff Adnodau'r Cymry**
Beti-Wyn James £9.99
60 o Gymry adnabyddus yn rhannu eu hoff adnodau gyda, a'u rheswm dros ddewis yr adnodau hynny.




**Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg** John Tudno Williams
Pris: £26.99, 568 tt
Cyfrol safonol sy'n cymharu'r gwahaniaethau rhwng dau gyfieithiad o'r Beibl Cymraeg, sef cyfieithiad Williams Morgan (Argraffiad 1620) a'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (2004).

---

Trwy gysylltu â Chyngor Ysgolion Sul mae'n bosib cael gostyngiadau arbennig drwy brynu cyflenwad i'w cyflwyno i blant.

**Y Llais** £7.99
Huw John Hughes
Dyma gyfrol sy'n ein tywys ar daith drwy fywyd Iesu, wedi ei ysgrifennu mewn arddull papur tabloid. Addas i ieuenctid ac oedolion.

**Stori Fwya'r Byd** £8.99
Bob Hartman / Addasiad Cymraeg Meinir Pierce Jones
Beibl wedi'i chysylltu â saethau a chwestiynau a dwdls difyr. Mae'n llawn criwiau o angylion, gwyrthiau gwefreiddiol, breuddwydion boncyrs ac addewidion amhosibl.

**Y Comic Beiblaidd Anferth** £8.99
Addasiad Cymraeg o gomic beiblaidd, 112 tudalen, wedi ei baratoi gan arlunwyr y Beano.

**Beibl Newydd y Teulu** £13.99
Bob Hartman
Casgliad o straeon Beiblaidd yn cael eu cyflwyno mewn arddull fywiog, ar gyfer eu darllen yn uchel gyda phlant. Addasiad Cymraeg o Lion Storyteller Family Bible sy'n gydymaith i'r cwrs Agor y Llyfr.



# Beth yw Godly Play?

Dull i feithrin plant yn y ffydd Gristnogol sydd wedi anelu at blant oed 3-11, ac mae'n defnyddio'r gyfrwng mwyaf naturiol iddyn nhw i dyfu eu ffydd, sef chwarae. Drwy storiau a symbolau mae'n cynnig lle i blant brofi presenoldeb Duw, dysgu storiau'r Beibl a dod i ddeall a chredu'r ffydd Gristnogol.




## Beth sy'n digwydd mewn sesiwn Godly Play?

Mae sesiwn Godly Play yn dechrau gyda'r plant yn eistedd mewn cylch gyda'r storïwr. Yna mae'r storïwr yn dweud stori o'r Beibl, gan ddefnyddio gwrthrychau a symbolau megis tywod, pobl bach pren a lluniau. Mae'r stori yn dod yn fyw yn y dull sy'n naturiol iddyn nhw.

Ar ôl y stori mae yna amser 'myfyrio', gan ofyn cwestiynau agored i helpu'r plant i gysylltu'n bersonol gyda'r naratif. Wedyn mae amser rhydd ar gyfer chwarae, neu gelf a chrefft. Mae'r plant yn cael un ai dewis stori o'r silffoedd a chwarae gyda hi, neu ymateb i'r stori mewn ffordd greadigol drwy gelf a chrefft. Yna daw pawb yn ôl at y cylch ar gyfer gweddiau a'r 'wledd', sef fel arfer bisgedyn a diod. Ac yna mae'n amser dweud ta-ta!


## Lle alla i ddefnyddio Godly Play?

Mae Godly Play yn addas ar gyfer ysgol Sul, clwb ar ôl ysgol, ac astudiaethau Beibl gyda plant. Gellir defnyddio'r storïau hefyd yng nghyd-destun gwasanaethau pob oed, Llan Llanast a gwersi Addysg Grefyddol.

## Lle alla i gael adnoddau Godly Play?

Mae storïau Godly Play ar gael yn y Gymraeg, mewn un cyfrol sydd yn gydymaith i'r llyfrau Saesneg *The Complete Guide to Godly Play* gan Jerome Berryman, Cyfrolau 2, 3, 4 a 6 ac ar gael drwy'r Cyngor Ysgolion Sul. Mae'r cyfrolau Saesneg ar gael drwy siopau llyfrau ar-lein.


**CASGLIAD O DROS 400 O EMYNAU A CHANEUON CRISTNOGOL I BLANT AC IEUENCTID WEDI EU CYHOEDDI MEWN DWY GYFROL.**




CANU CLOD!

**Ceir rhai o'n ffefrynnau traddodiadol ond yn bennaf dyma gasgliad o ganeuon Cristnogol cyfoes a gomisiynwyd ar gyfer y gyfrol.** Cerddoriaeth llawn **hen nodiant** gyda **cordiau gitâr.**

Pris y gyfrol **£26.99** *neu* cyfle unigryw i gael **UN set am £40**

yn cynnwys cludiant!

**Cyfres y Beibl**

Taith 7 rhan trwy stori fawr y Beibl

**Pecyn cyflawn ar gyfer yr holl eglwys yn cynnwys:**

- **7 pregeth** tua 30 munud yn mynd trwy themâu mawr y Beibl - addas i ddefnyddio mewn oedfaon
- **6 ffilm fer** yn rhoi bras olwg o themâu canolog y Beibl
- **6 ffilm greadigol** i ysgogi trafodaeth ac ymateb
- **6 ffilm stori ffydd** yn dangos themâu mawr y Beibl ar waith ym mywyd unigolion
- **Pecyn o adnoddau grwpiau bach** i'w defnyddio mewn dosbarth Ysgol Sul oedolion, seiat neu gylch trafod
- **Pecyn cynhwysfawr o sesiynau plant** yn edrych ar themâu mawr y Beibl: taflenni ar gyfer oed meithrin, cyfnod allweddol 1, cyfnod allweddol 2 ac ieuenctid

profwch stori well

**cyfresybeibl.com**

# Beth am ymuno a'n rhestr ebost ni?

Rydym yn anelu i anfon bwletin allan yn fisol yn rhannu am waith diweddaraf y Cyngor Ysgolion Sul ac adnoddau diweddaraf Cyhoeddiadau'r Gair.

**Ebostiwch aled@ysgolsul.com er mwyn cael eich ychwanegu at ein basdata.**




## Catlog Adnoddau

### 64 tudalen lliw llawn

Ar gael i lawrlwytho am ddim o www.ysgolsul.com neu gallwch archebu copi caled trwy anfon siec o £2 i 'Cyngor Ysgolion Sul' i'r cyfeiriad a welir uchod. Bydd modd codi copi am ddim wrth i ni deithio gyda arddangosfeydd gwahanol.

# Fedrwch chi gefnogi gwaith y Cyngor Ysgolion Sul?

Mae Cyngor Ysgolion Sul yn elusen gofrestredig, rhif 525766, sy'n gweithio'n agos gyda'i bum prif noddwr, sef yr enwadau Cymreig yng Nghymru, er mwyn cyflwyno'r newyddion Da am Iesu, yn bennaf i blant ac ieuenctid, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Mae llawer iawn o'r gwaith craidd mae'r Cyngor yn ei wneud yn cael ei gynnal a'i noddi gan yr enwadau. Fodd bynnag mae llawer iawn o'r gwaith cenhadol ac ymestynol rydym yn ei gyflawni yn ddibynnol i raddau helaeth ar roddion gan garedigion ac unigolion sy'n cyfrannu at y gwaith. Wrth i ni ddatblygu strategaeth genhadol newydd mae rhoddion yn fwyfwy allweddol i wneud gwaith newydd a chyfoes, gan gofleidio technoleg newydd i wneud hynny. Dros y blynyddoedd nesaf rydym yn bwriadu datblygu gwefannau newydd lle bydd llawer iawn o adnoddau yno i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim. I gyflawni hynny mae angen eich rhoddion arnom.

**Mae'r rhai sy'n cyfrannu eisoes at y gwaith yn cynnwys:**

- Unigolion sy'n cyfrannu'n rheolaidd neu yn achlysurol at y gwaith
- Eglwysi sy'n gyrru rhoddion trwy ein hapêl blynyddol ar Sul Addysg.
- Cymanfaoedd, Cyfundebau ac Henaduriaethau sy'n gyrru rhoddion achlusurol
- Cynghorau eglwysi, grwpiau Cytûn a noddwyr Cristnogol a fydd yn gyrru rhoddion at broject arbennig
- Casgliadau yn dilyn oedfaon neu ddigwyddiadau arbennig.

**Tybed a ydych chi wedi ystyried, ac mewn modd i gyfrannu at barhad a datblygiad ein gwaith?**

Mae modd cyfrannu mewn mwy nag un ffordd.

Gellir **gyrru siec** yn daladwy i Cyngor Ysgolion Sul at Aled Davies, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Gellir sefydlu **archeb banc** rheolaidd. I wneud hynny eto, dylid cysylltu gydag Aled am fanylion sefydlu a threfnu archeb banc.

Gellir **cyfrannu yn uniongyrchol ar y we** – manylion llawn am hyn ar www.ysgolsul.com.


Cofiwch hefyd bod modd cynnwys Cyngor Ysgolion Sul mewn **ewyllys**, ac os ydych am wneud hynny, i nodi 'Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru, elusen gofrestredig 525766' fel y derbynnydd.

Rydym hefyd wedi bod yn ffodus ar adegau arbennig i **dderbyn rhoddion gan gapeli ac eglwysi mewn cyfnod pan maent yn dwyn yr achos lleol i ben**. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd mae gan yr aelodau lleol yr hawl i wario'r arian rhydd yn y cyfrif banc ac mae cyfrannu at waith Cyngor Ysgolion Sul yn un ffordd o alluogi tystiolaeth Gristnogol Gymraeg i barhau. Gwerthfawrogir bob rhodd gan eglwysi yn y modd hwn.

**Gwerthfawrogir pob rhodd, sy'n ein galluogi ni i ymestyn allan yn genhadol i Gymry Cymraeg gan gyflwyno'r newyddion Da am Iesu Grist.**

# ROOTS yn Gymraeg

**Y mae elfennau o ddeunydd addoli a dysgu Roots for Churches ar gael yn Gymraeg**, a hynny i'w lawrlwytho am ddim o'r wefan i bawb sy'n tanysgrifio i'r cylchgronnau. Ar gyfer bob Sul o'r flwyddyn y mae holl weddïau ar gyfer addoliad pob oed ac addoliad adran yr oedolion ar y wefan, awgrymiadau o emynau Cymraeg ynghyd â thaflen waith wythnosol ar gyfer y plant ar gael yn Gymraeg.


Enw
Roots
Taflen weithgaredd
22-28 Mawrth 2026
Grawys 5
Ioan 11:1-45
Mae Iesu'n dychwelyd i Fethania ac yn rhannu ei dristwch am farwolaeth Lasarus gyda Martha a Mair, cyn i Lasarus gael ei atgyfodi'n fyw.
Mae Iesu'n atgyfodi Lasarus o'r meirw.
Gwna lun
Alli di dynnu llun Iesu'n galw Lasarus, a Lasarus yn dod allan o'r bedd?
Pos
Rhifa lythrennau'r wyddor o A = 1 i Y = 28. Nawr defnyddia hwn i gracio'r cod isod a darganfod beth ddywedodd Iesu.

| A | B | C | CH | D | DD | E | F | FF | G | NG | H | I | L |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | |

| LL | M | N | O | P | PH | R | RH | S | T | TH | U | W | Y |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | |

16 28 8 13 / 28 27 ' 21 / 1 24 10 28 8 18 5 13 1 5

Ysgrifenna
Mae llawer o wahanol bobl yn ein stori heddiw. Alli di ddod o hyd iddyn nhw wedi'u cuddio yn y chwilair?
DISGYBLION
IESU
LASARUS
MARTHA
MAIR
GALARWYR

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | I | S | G | Y | B | L | I | O | N |
| L | Y | B | M | U | G | U | H | I | G |
| A | M | M | A | R | TH | A | E | L | A |
| S | A | A | I | P | E | W | E | E | L |
| A | D | I | R | S | U | O | B | W | A |
| R | A | W | C | C | F | G | R | E | R |
| U | N | D | E | G | C | U | M | L | W |
| S | D | I | E | S | U | O | E | F | Y |
| B | A | T | F | C | T | B | B | M | R |

© Roots for Churches Ltd Adnoddau wythnosol ar gyfer addoli a dysgu ar www.rootsforchurches.com

Mae sampler ar gael sef deunydd ar gyfer un Sul arbennig ym Medi (er y gellir ei ddefnyddio ar unrhyw Sul wrth gwrs) a copi o'r deunydd Cymraeg ar gyfer yr wythnos oddi ar y wefan. Dyma gyfle felly i arbrofi gyda'r deunydd ar gyfer oedfa arbennig.

Mae cyfle i danysgrifio i ROOTS trwy dderbyn copïau yn y post bob deufis. O danysgrifio, fe fydd y deunydd hwn ar gael yn wythnosol ar eich cyfer.

I danysgrifio ewch i wefan

**www.rootsontheweb.com**

# Llan Llanast

## Messy Church yn Gymraeg!

Mae dau adnodd Cymraeg yn y gyfres Llan Llanast ar gael yn Gymraeg. Llan Llanast yw'r enw Cymraeg awdurdodedig ar gyfer cynnal gweithgaredd Messy Church.

**Cychwyn eich Llan Llanast** Pris £4.99

**Llan Llanast** Pris £7.99
Cyfeirlyfr yn cynnwys arweiniad a sesiynau ymarferol.





**Adnoddau Messy Church ar gael o www.brf.org.uk**

# Arwyr Ancora

App Beiblaidd cyffrous i blant

I'w lawrlwytho am ddim
**ewch i www.arwyrancora.com**
neu chwilio amdano yn y gwahanol *app stores*.

**Bellach mae deunydd Clwb Gwyliau Arwyr Ancora ar gael sy'n cynnwys gweithgarwch ar gyfer 5 diwrnod.**




**Casglu'r Trysor**
£11.99
Cynllun clwb gwyliau cyflawn yn cynnwys gwersi, gemau, posau a gweithgareddau. Mae'n cyd-fynd ag Ap Arwyr Ancora.

**Cist Drysor - 5-7 oed**
**Storfa Drysor - 7-11 oed**
£2.50 yr un
2 lyfr lliwgar ar gyfer y plant sy'n llawn posau a gweithagreddau, sy' cyd-fynd â sesiynau clwb gwyliau Arwyr Ancora

# Ffurflen Archebu

## Beiblau cyffrous i bobl o bob oed

Prosiect ar y cyd rhwng:

Cyngor Ysgolion Sul

beibl.net

Cymdeithas y Beibl

Mae tri fersiwn o beibl.net ar gael. Mae fersiwn llawn o'r Beibl ar gael yn ogystal â Beibl lliw newydd i blant. 365 o storïau – pob un ohonynt gyda llun lliw llawn a thestun o beibl.net. I bob archeb a dderbynnir cyn Rhagfyr 31 medrwn gynnig y prisiau canlynol. Hefyd ar gael erbyn hyn mae fersiwn ar gael i bobl ifanc sy'n cynnwys llawer o ffeithiau, nodiadau, mapiau a gwybodaeth gefndirol. Mae nifer o ffilmiau cysylltiedig ar gael ar y wefan hefyd.




Pris **beibl.net** a **beibl.net – 365 o storïau o'r Beibl**

1 copi: £14.99

2–5 copi: £14 yr un

6–24 copi: £12 yr un

25+ copi: £10.50 yr un

Gellir cyfuno niferoedd o'r ddau Feibl oddi mewn i'r archeb er mwyn sicrhau y prisiau gostyngol.

Pris **beibl.net i bobl ifanc**

1–2 copi £19.99 yr un

3 copi neu fwy £17.50 yr un

**Dosbarthu: Byddwn yn ceisio osgoi postio parseli ac yn trefnu gollwng pecynnau mewn canolfannau strategol ledled Cymru. Ni fydd cost yn gysylltiedig â hynny. Os fyddai'n well gennych dderbyn eich cyflenwad trwy'r post cysylltwch am fanylion cludiant.**

Dymunaf archebu: ....... copi o beibl.net (y Beibl cyflawn) am £........ yr un

....... copi o *beibl.net mewn lliw – 365 o storïau o'r Beibl* am £........ yr un

....... copi o *beibl.net i bobl ifanc* am £........ yr un

Amgaeaf siec o £................. yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'.

**Ffôn** ........................................ **Ebost** ........................................

**Enw a chyfeiriad** ........................................

........................................ **Côd Post** ........................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

# Cynllun Cronfa Illtud

## CYNLLUN i gefnogi eich **ysgol** leol...
## cyfle i eglwysi lleol gynorthwyo eu hysgolion lleol

**Y mae ysgolion yn cwyno am ddiffyg cyllid.**
**Y mae prinder adnoddau Cristnogol mewn ysgolion.**
**Y mae eglwysi yn pryderu am addysg Gristnogol.**

Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth creadigol i wella'r sefyllfa!

**CYFLE I EGLWYSI GYFLWYNO RHODD O LYFRGELL GRISTNOGOL GYMRAEG I YSGOL LEOL.**




**Pris arferol y llyfrau : £150. Pris arbennig gan gynnwys cludiant : £60**

Trwy'r cynllun arbennig yma, y mae'n bosibl cyflwyno llyfrau darllen at wasanaeth eich ysgol gynradd leol.


Mae'r casgliad yn cynnwys 30 o'r llyfrau diweddaraf, lliwgar ar gyfer rhai rhwng 5–11 oed.

## CYNLLUN i roi llyfrgell adnoddau defosiynol yn eich **eglwys** leol...
## cyfle i eglwysi lleol i alluogi aelodau i arwain oedfaon

**Y mae eglwysi yn cwyno am brinder pobl i arwain oedfa.**
**Y mae prinder adnoddau'w cynorthwyo yn aml mewn eglwysi.**
**Detholiad o 20 teitl gwahanol ar gyfer oedfaon a chyrddau gweddi.**

Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth creadigol i wella'r sefyllfa!

**CYFLE I EGLWYSI OSOD LLYFRGELL O LYFRAU DEFOSIYNOL YN Y CAPEL.**




**Pris arferol y llyfrau : £150. Pris arbennig gan gynnwys cludiant : £60**

Trwy'r cynllun arbennig yma, y mae'n bosibl prynnu cyflenwad o 20 llyfr gweddi/oedfaon/myfyrdodau gwahanol ar gyfer galluogi pobl o fewn y gynulleidfa i gymryd yr awenau ac arwain oedfa ar y Sul.

Mae'r casgliad yn cynnwys 20 o lyfrau gan Cyhoeddiadau'r Gair a gyhoeddwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd y llyfrau yn cael eu dewis genym ni.

---

☐ Amgaeaf siec o £60 am Becyn Illtud o lyfrau lliwgar ar gyfer yr ysgol leol

☐ Amgaeaf siec o £60 am Becyn Illtud o lyfrau defosiynol ar gyfer yr eglwys leol

Sieciau yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'.

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ..........................................................................

..........................................................................

**Côd Post** ....................................... **Ffôn** .......................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Pecyn yn cynnwys **20** Poster Cristnogol Lliwgar


# Cyfres o bosteri Cristnogol

Cyfres o 20 poster Cristnogol lliwgar sy'n addas i'w arddangos mewn eglwys, festri Ysgol Sul neu ystafell ddosbarth yn yr ysgol.





*Y gyfres yn cynnwys:*

- Llyfrgell o holl lyfrau'r Beibl
- Map lliwgar o Israel yng nghyfnod y Beibl
- Testun Gweddi'r Arglwydd, Y Deg Gorchymun a Salm 23
- Posteri addas ar gyfer y Nadolig a'r Pasg




# Y 4 Pwynt

www.the4points.com



Mae Y 4 Pwynt yn dract Cristnogol sydd ar gael mewn nifer o ieithoedd gan gynnwys erbyn hyn y Gymraeg!




**Mae'r tract yn defnyddio pedwar symbol – calon (mae Duw'n fy ngharu) croes X (Rydw i wedi pechu), croes Crist (Bu Iesu farw drosof) a marc cwestiwn (Rhaid i mi benderfynu byw er mwyn Duw).**


Ar y wefan yn ogystal (www.the4points.com) mae llawer iawn o adnoddau di-iaith gan gynnwys breichledau, capiau, sticeri, crysau-t a hwdis. Dyma adnodd hynod effeithiol i genhadu ymysg pl




Ar y tract o dan y symbolau mae'r esboniadau isod:
MAE DUW'N FY NGHARU
RYDW I WEDI PECHU
BU IESU FARW DROSOF
RHAID I MI BENDERFYNU BYW ER MWYN DUW

# Detholiad o'n Beiblau i Blant


Trwy gysylltu â Chyngor Ysgolion Sul mae'n bosib cael gostyngiadau arbennig drwy brynu cyflenwad i'w cyflwyno i blant.





**Beibl Lliw Stori Duw**
£12.99
Mae'r beibl hwn i blant 7–11 oed yn cynnwys 365 o straeon, un ar gyfer pob diwrnod o'r flwyddyn.





**Beibl Bach Stori Duw**
£12.99
Beibl lliwgar i blant 5–8 oed yn ein harwain trwy'r Beibl, gan gyflwyno'r stori fel un stori, gan esbonio sut mae'r cyfan yn rhan o stori fawr Duw.





**Beibl Bach i Blant** £13.99
Cyfrol ddarluniadol hardd mewn lliw yn cynnwys 64 o storïau mwyaf poblogaidd o'r Beibl, wedi eu haddasu ar gyfer plant ifanc.





**Beibl Newydd y Plant**
£12.99
Beibl lliw ar gyfer plant 5–8 oed. Dyma stori fawr y Beibl o'r Creu i'r Cadw, wedi ei hadrodd yn arbennig ar gyfer plant.





**Beibl Newydd y Storïwr**
£12.99
Casgliad o straeon o'r Beibl i'w darllen yn uchel i blant. Hwn yw'r Beibl ar gyfer cynllun Agor y Llyfr.





**Beibl y Plant Lleiaf**
£12.99
Addasiad Cymraeg o gasgliad o ugain stori Feiblaidd gyda thestun syml wedi eu darlunio'n lliwgar, yn cynnwys deg stori yr un o'r ddau Destament; i blant 3–6 oed.




**Y Beibl Graffig**
£16.95
Addasiad Cymraeg deniadol o gyfrol ddarluniadol lawn yn adrodd holl ddrama a chyffro, llawenydd a loes hoff hanesion y Beibl; i blant o bob oed.





**Beibl Blociau**
£12.99
Beibl lliwgar i blant 9–14 oed yn arddull Minecraft.





**Fy Meibl Bach**
£5.99
Llyfr bwrdd gydag handlen hwylus yn cynnwys 12 stori o'r Beibl ar gyfer y plant lleiaf.




**Beibl Cyntaf y Plant Lleiaf**
£9.99
Beibl bwrdd i'r plant lleiaf.




**Fy Meibl Bach I**
£3.99
Casgliad o brif storïau'r Beibl wedi'u hadrodd yn syml a'u darlunio'n lliwgar ar gyfer plant bach.





**Y Beibl Fesul Stori**
£9.99
Beibl lliw newydd ar gyfer ieuenctid 11–18 oed, mewn arddull nofel / y stori gyflawn.

# Adnoddau i rannu stori'r Nadolig i blant

## Dau Gomic/Llyfr Nadolig

Mae dau gomic Beiblaidd Nadoligaidd ar gael i'w cyflwyno i blant oed cynradd. Maent ar gael am y pris arbennig o 75c yr un mewn pecynnau o 10, neu 99c yr un. Gellir hefyd archebu pecynau mawr o 50 am £35 neu 100 am £50 – mae hyn yn cynnwys pris cludiant. Gellir trefnu eu cludo i ganolfannau arbennig neu os bydd angen eu postio bydd rhaid codi cludiant ychwanegol.





**Comic Beiblaidd Nadolig** *(I Blant 5 i 9 oed)*
Comic newydd lliwgar 16 tudalen yn cyflwyno stori'r Nadolig ynghyd â gweithgareddau lliwio a phosau niferus ar y thema.

**Arwyr Ancora: Comic Beiblaidd y Nadolig** *(I Blant 9 i 11 oed)*
Mae'r Comic 20 tudalen hwn hefyd yn cyflwyno plant i app Beiblaidd *Guardians of Ancora* sydd ar gael yn Gymraeg i'r iPad a theclynnau tebyg.





**Fy Llyfr Nadolig Cyntaf** gan **Anni Llŷn** *(I Blant 5 i 7 oed)*
Yn ogystal mae llyfr lliwgar yn adrodd hanes stori'r Nadolig ar ffurf odl wedi ei greu yn arbennig gan Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru 2015-2017. Mae'n addas ar gyfer plant 4 i 8 oed. Maent ar gael am £2.99 yr un. Gellir hefyd archebu pecynau mawr o 50 am £75 neu 100 am £100. Gellir trefnu eu cludo i ganolfannau arbennig neu os bydd angen eu postio bydd rhaid codi cludiant ychwanegol.




---

# Llyfrau rhodd ar gyfer y Nadolig







**Llyfr Lliwio fy Nadolig Cyntaf** £1.99
Llyfr lliwio Nadoligaidd i blant bach sy'n cynnwys y stori am eni'r Iesu ym Methlehem.

**Llyfr Gweithgaredd fy Nadolig Cyntaf** £2.99
Llyfr posau a gweithgareddau Nadoligaidd i blant bach sy'n cynnwys y stori am eni'r Iesu.

**Chwilota drwy Stori'r Nadolig** £5.99
Cyfrol lliwgar yn arddull Ble mae Wali? yn adrodd hanes y Nadolig, gyda channoedd o bethau i chwilio amdanynt ar dudalennau cerdyn caled sy'n agor allan. Addasiad Cymraeg o Look and Find Bible Stories Christmas gan Mair Jones Parry.


**Chwilio a Chanfod: Stori'r Nadolig** £3.99
Llyfr bwrdd lliwgar yn adrodd hanes y Nadolig ar gyfer plant 3-6 oed.


**Fy Llyfr Cyntaf: Stori'r Nadolig** £3.99
Llyfr bwrdd gyda handlen yn adrodd hanes y Nadolig ar gyfer plant 3-6 oed. Addasiad Cymraeg o The Story of Christmas gan Mair Jones Parry.


**Rhyfeddod y Nadolig** £2.99
Llyfr stori'r Nadolig i blant 5-8 oed gan Bethan James, wedi'i ddarlunio mewn lliw gan Paula Doherty. Addasiad Cymraeg Mair Jones Parry.


**Stori'r Nadolig Cyntaf** £3.99
Llyfr bwrdd lliwgar ar gyfer plant 3-5 oed yn adrodd hanes y Nadolig cyntaf.

**Telerau arbennig ar gael drwy gysylltu gyda'r Cyngor Ysgolion Sul**



# Ffurflen Archebu

# Adnoddau y Nadolig

# Clywch lu'r Nef!




Ar gyfer y Nadolig mae Cyngor Ysgolion Sul wedi paratoi cyfres o adnoddau a fydd yn galluogi Eglwysi i gyflwyno neges a llawenydd y Nadolig o fewn ein cymunedau mewn ffordd drawiadol ac effeithiol.

Yn ganolbwynt i'r cyfan mae **cylchgrawn lliwgar 16 tudalen** sy'n cynnwys darlleniadau Beiblaidd, erthygl yn sôn am 'Beth yw'r Nadolig?' gan Arfon Jones, posau, croesair, rysáit Cacen Nadolig, cerddi, gweddïau, tudalen i'r plant a nifer o erthyglau diddorol.

Mae modd prynu copïau o'r cylchgrawn am 99c yr un, neu becynnau o 100 gopi am £50 (50c yr un). **Mae modd hefyd archebu copïau gyda thudalen gefn a all gynnwys manylion lleol eich eglwys/amseroedd oedfaon Nadolig** ayyb... Os am archebu rhai penodol i'ch eglwys/ardal rhaid archebu isafswm o 250 copi am £250, neu 500 copi am £350 neu 1,000 copi am £500. Ni ellir argraffu niferoedd gwahanol i'r rhain.

Yn ogystal hefyd mae **baner liwgar** ar gyfer ei harddangos tu allan i'ch capel (2 fedr wrth 0.5 medr) ar gael am £25 yr un.

| | Pris | **Nifer** | **Cost** |
|---|---|---|---|
| **CYLCHGRAWN CYFFREDINOL** | | | |
| Clywch lu'r Nef! – 1 i 5 copi | £0.99 | ................ | ................ |
| Clywch lu'r Nef! – 6 i 99 copi | £0.75 | ................ | ................ |
| Clywch lu'r Nef! – 100 copi neu fwy | £0.50 | ................ | ................ |
| **CYLCHGRAWN WEDI EI ADDASU AT DDIBEN LLEOL** | | | |
| Clywch lu'r Nef! – 250 copi | £250 | ................ | ................ |
| Clywch lu'r Nef! – 500 copi | £350 | ................ | ................ |
| Clywch lu'r Nef! – 1,000 copi | £500 | ................ | ................ |
| **BANERI** | | | |
| Baner ar gyfer tu allan (2m X 0.5m) | £25 | ................ | ................ |
| | | **Cyfanswm Cost** | ................ |




Mae'r prisiau yma yn cynnwys cludiant.

Amgaeaf siec o £................ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul'. **Ffôn** ................................................................

**Enw a chyfeiriad dosbarthu** ........................................................................................................


........................................................................................ **Côd Post** ................................................

**Dychweler at:** Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

# CARDIAU NADOLIG CRISTNOGOL CYMRAEG


## Cynlluniau Beiblaidd lliwgar a chyfoes.
## Cardiau maint mawr. 8 mewn pecyn.




















**Mae yna nifer o gardiau Nadolig Cymraeg ar gael a werthir er budd gwaith yr ysgol Sul yng Nghymru, gyda chyfarchiad ac adnod ar bob cerdyn, ynghyd â llun lliw pwrpasol.**

**Mae yna gynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac ysgolion Sul. Am bob pecyn a werthir bydd 50c yn mynd i gronfa eich ysgol Sul chi. Dyma gyfle gwych felly i gefnogi Cyngor Ysgolion Sul a'ch ysgol Sul leol chi! Mi fyddwch chi yn talu £1.50 y pecyn amdanynt ac yn eu gwerthu am £2 y pecyn. Cynigir y cardiau ar gynllun dychwel neu werthu!**

**I archebu, cysyllter â (gan nodi nifer y pecynnau rydych am eu derbyn):**

Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

07894 580192 aled@ysgolsul.com
Rhoir amrywiaeth o gynlluniau ymhob bocs – tra pery stoc.

Amgaeaf siec o £................ yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' am ............... o becynnau am £1.50 yr un (+£2.50 cludiant).

Enw a chyfeiriad dosbarthu ..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

Côd Post .......................................................................... Ffôn ..........................................................

# Cyngor Ysgolion Sul ar y Cyfryngau Cymdeithasol




## Tudalen Facebook Beibl Byw/ Cristnogaeth Cymru

Tudalen yw hon i helpu ac annog pobl i ddarllen y Beibl – yma byddwn yn rhannu myfyrdodau tymhorol i'r harwain trwy y prif wyliau Cristnogol, myfyrdodau i'n harwain at y Beibl ac ambell air o anogaeth, emyn cyfoes neu pytiau i wneud i ni feddwl am berthnasedd y Beibl i'n bywydau heddiw.

## Tudalen Facebook 'Beibl.net'

Tudalen yw hon er mwyn rhannu adnodau a darnau o'r Beibl allan o fersiwn beibl.net gan Arfon Jones. Yn ogystal â rhannu adnod a llun yn ddyddiol byddwn hefyd yn rhannu darnau o'r Beibl i'n harwain trwy y prif wyliau Cristnogol, ac yn rhannu Salmau a darnau eraill i'n hannog a'n hysbrydoli ar adegau arbennig.

## Tudalen Facebook 'Cyngor Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair'

Tudalen yw hon yn bennaf ar gyfer rhannu gwybodaeth a newyddion am adnoddau a digwyddiadau Cristnogol yng Nghymru. Trwy ddilyn hon cewch eich cadw mewn cysylltiad gyda'r hyn sy'n digwydd yn y byd Cristnogol Cymraeg. Bydd gwybodaeth am adnoddau i eglwysi ac Ygolion Sul yma yn rheolaidd. Hon yw tudalen swyddogol Cyngor Ysgolion Sul a Cyhoeddiadaui'r Gair.

## Tudalen 'Gair o Weddi'




Tudalen yw hon lle byddwn yn rhannu gweddi ddyddiol newydd a gwreiddiol bob dydd. Weithiau ceir gweddi fer a llun, ac weithiau ceir gweddi fwy maith. Byddwn yn ceisio ymateb i ddigwyddiadau'r cyfnod ac yn ceisio dilyn rhediad y flwyddyn Gristnogol hefyd.

## Tudalen 'Emynau Gobaith'




Ar dudalen Facebook Emynau Gobaith byddwn yn rhannu geiriau emynau Cymraeg – rhai ohonynt o hen lyfrau emynau enwadol na aeth i mewn i Caneuon Ffydd. Byddwn hefyd yn rhannu penillion i'n hysbrydoli, ynghyd â linciau i emynau a chaneuon newydd oddi ar YouTube, ac ar ein sianel deledu Teledu Cristnogol Cymru.

## CYS a beibl.net ar Twitter

Os ydych chi'n ddefnyddiwr Twitter mae croeso i chi ddilyn ein cyfri ac ymuno gyda'r sgwrs. Byddwn yn rhannu adnodau, myfyrdodau a dyfyniadau ysbrydoledig yn achlysurol ar y cyfri hwn.

## Teledu Cristnogol Cymru

Mae Cyngor Ysgolion Sul wedi creu sianel deledu Gristnogol Gymraeg sy'n tynnu at ei gilydd yr holl ddeunydd sydd gael ar gael ar lein gan wahanol eglwysi, mudiadau a darlledwyr

Ar y sianel hon mae modd gwrando ar gerddoriaeth Gristnogol, gwylio cartŵns Beiblaidd i blant, gwrando ar fyfyrdodau Beiblaidd, cyfle i wylio oedfaon cyflawn a rhagleni canu cynulleidfaol. Bellach mae dros 1000 eitem ar y sianel hon.

# Ydach chi wedi ymweld â gwefannau Cyngor Ysgolion Sul?




Erbyn hyn mae gan Cyngor Ysgolion Sul 5 gwefan y mae'n gyfrifol amdanynt.

## www.ysgolsul.com

Gwefan swyddogol y Cyngor, sy'n cynnwys gwybodaeth a newyddion am ein gwaith yn ogystal â siop ar lein a siop ddigidol i brynu llyfrau ac adnoddau digidol i'w lawr lwytho.

## www.cristnogaeth.cymru

Gwefan gyffredinol sy'n ffynhonnell gwybodaeth am bopeth ac unrhyw beth yn ymwneud â Christnogaeth yng Nghymru..

## www.gair.cymru

Gwefan sy'n cynnwys deunydd Cristnogol Cymraeg i'w lawr lwytho yn rhad ac am ddim, gan gynnwys gwersi ysgol Sul ar gyfer pob oed, gwasanaethau cyflawn ar gyfer cynnal oedfaon ar y Sul, gweddïau a myfyrdodau, ffilmiau ar gyfer plant ac oedolion, cyflwyniadau PowerPoint i'w defnyddio mewn gwersi ac oedfaon, deunydd defosiwn dyddiol ar gyfer bob dydd o'r flwyddyn, gwasanaethau ar gyfer ysgolion a sgyrsiau plant ar gyfer oedfa neu wasanaeth ysgol.

## www.beibl.net

Gwefan sy'n cynnwys testun y Beibl cyfoes beibl.net ynghyd â llawer o adnoddau cysylltiol eraill.

## www.gobaith.cymru

Gwefan sy'n cynnwys dros fil o emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes ar ffurf geiriau yn unig ac fel ffeiliau Powerpoint y mae modd eu lawr lwytho yn rhad ac am ddim.

## Beth am ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol:

/ysgolsul /beiblnet
/beiblbyw /gairoweddi
/emynaugobaith

@ysgolsul
@beibl_net

Cyngor Ysgolion Sul